



# Cymdeithas Edward Llwyd

Cymdeithas Genedlaethol Naturiaethwyr Cymru

Elusen Gofrestredig rhif 1126027

## Cofnodion Cyfarfod Rhithiol y Pwyllgor Gwaith a gynhaliwyd brynhawn Iau y 18<sup>ed</sup> o Chwefror 2021 2:00 y.p.

### Yn Bresennol

Iona Evans	Cadeirydd
Hywel Madog Jones	Is-gadeirydd
Margaret Roberts	Trysorydd
Gareth W Jones	Ysgrifennydd

Eirian Davies, Robert Evans, John Griffith, Dafydd Horan, Dafydd Lewis, Carys Parry, Gwyn Roberts, Iwan Roberts, Alan Williams, Phillip Williams a Jackie Willmington (Ysgrifennydd Cofnodion).

### 1. GAIR O GROESO GAN Y CADEIRYDD

Estynnodd y Cadeirydd groeso i bawb gan ddweud ei bod yn enwedig o falch o weld John Griffith.

### 2. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau oddi wrth Duncan Brown ac Elizabeth Roberts.

### 3. DERBYN COFNODION CYFARFOD O'R PWYLLGOR GWAITH A GYNHALIWDYD AR Y 19<sup>eg</sup> O Dachwedd 2020

Cynigiodd Rob Evans ac eiliodd Hywel Madog Jones dderbyn cofnodion y cyfarfod fel rhai cywir.

### 4. MATERION YN CODI O'R COFNODION

- (i) Cofnod 4: Talu am danysgrifiad Zoom gyda chyfleusterau gwell Dywedodd yr Is-gadeirydd y gellid cofrestru enw parth (domain name) am tua £10 a byddai cost cynnal o £10-£20 y flwyddyn. Ychwanegodd fod rhaid trafod cyfeiriadau e-bost ynghyd â chyfleusterau cynnal cyfarfodydd rhithiol. Esboniodd ei fod yn asesu manteision Zoom, Google Meet a Microsoft Teams. Esboniwyd bod Google a Microsoft yn cynnig cyfrifon am ddim i fudiadau dielw sydd yn cynnwys cyfrif e-bost a lwfans storio data. Tynnwyd sylw bod rhaid ystyried gofynion y chyfleusterau cynnal cyfarfodydd o ran band eang a chyflymder prosesu.

Dywedodd yr Is-gadeirydd iddo gredu mai "G Suite for non-profits" fyddai'r fwyaf addas o ran chyfleusterau a chreu proffil i'r Gymdeithas. Gofynnwyd i aelodau'r Pwyllgor Gwaith ddarllen y wybodaeth berthnasol ar wefan Google a mynegi barn i Hywel Madog cyn pen pythefnos (**pwylt gweithredu**). Cytunwyd y byddai'r Is-

gadeirydd yn agor cyfrif ar ran y Gymdeithas petai ymateb y PG yn ffafriol. Diolchodd y Cadeirydd i Hywel Madog am ymchwilio'r pwnc mor drwyadl.

- (ii) Cofnod 5: Yr ymweliad â'r Arfordir Jwrasig 2021 Adroddodd Carys Parry na fyddai'r gwesty ym Mae Lulworth ar agor ym mis Mawrth 2021 ond byddent yn fodlon cynnig wythnosau amgen ar yr un telerau yn ystod hydref 2021 ynteu gwanwyn 2022. Dywedodd fod yr holl aelodau a oedd wedi archebu llefydd o blaid aildrefnu a phenderfynwyd bwcio 21 – 27 Ebrill. Diolchodd y Cadeirydd i Carys am ei holl waith trefnu ac aildrefnu'r digwyddiad.
- (iii) Cofnod 6: Ymateb i gofnodi llwybrau cyhoeddus ar fapiau Dywedodd yr Ysgrifennydd iddo dderbyn ymateb oddi wrth Gymdeithas y Cerddwyr a oedd wedi cynnig hyfforddiant i aelodau â diddordeb. Cytunwyd i gylchredeg y llythyr i'r PG a hyrwyddo'r cynllun yn y Cylchlythyr (**pwyt gweithredu**).
- (iv) Cofnod 7: Cystadleuaeth erthygl ar gyfer y Naturiaethwr yn yr Eisteddfod Amgen Dywedodd yr Ysgrifennydd ei fod yn disgwyl ymateb ffurfiol i'w ymholiadau ynglŷn â noddï cystadleuaeth am erthygl a recordio darlith. O ran darlithydd dichonol, penderfynwyd cysylltu â'r Athro Siwan Davies sydd yn ymchwilio ym maes rhewlifoedd. Wrth gefn awgrymwyd â Mary-Ann Constantine sydd wedi cyflwyno sgwrsiau am deithiau Thomas Pennant a Samuel Johnson. Tynnodd y Trysorydd sylw y byddai angen beirniad petai trefnwyr yr Eisteddfod Amgen yn cytuno i gynnal y gystadleuaeth am erthygl. Cytunodd Dafydd Lewis y byddai'n derbyn enwebiad.
- (v) Cofnod 7: Hyrwyddo llyfr Anne Gwynne "Fan Hyn a Fan 'Co" Canmolwyd y llyfr gan nifer o aelodau o'r PG a oedd wedi prynu copïau. Dywedodd Rob Evans i 500 copi gael eu hargraffu a chai 250 o'r rheini eu gwerthu gan siopau lleol tra bod Anne yn disgwyl gwerthu yn ddidrafferth drwy'r post a drwy gysylltiadau personol. Nodwyd i erthygl am y llyfr ymddangos yn rhifyn diweddaraf y Cylchlythyr a soniwyd amdano gan Rob mewn erthygl i bapurau bro. Tynnodd y Cadeirydd sylw bod elw o werthiant y gyfrol yn mynd at Ambiwlans Awyr Cymru, Gymdeithas Edward Llwyd a Ward Cemotherapi Ysbyty Bronglais.

## 5. ADRODDIADAU'R SWYDDOGION A'R IS-BWYLLGORAU

### i) Is-Bwyllgor Llên Natur

Darllenodd y Cadeirydd e-bost Duncan Brown a adroddodd y canlynol: -

- Cyhoeddi dau rifyn o Fwletin Llên Natur
- Datblygu "Sianel Llên Natur" ar y platfform AMAM gan obeithio cyrraedd cynulleidfa iau a mwy celfyddydol. <https://www.amam.cymru/llennatur>
- Uwchlwytho gwybodaeth o brosiect Llên Natur i Wikipedia'n gyson
- Cyhoeddi 17 poster "Llygaid Bach Llên Natur". Diolchwyd i Gareth Pritchard am ei waith.
- Gobeithio cynnal cyfarfod yr is-bwyllgor "Enwau a Thermau" drwy Zoom yn fuan.
- Paratoi tua 200 o gofnodion o rywogaethau i'w hanfon at "Cofnod" (Gwasanaeth Gwybodaeth Amgylcheddol Gogledd Cymru)

- Datblygiad cyflym yr adran mapiau ar wefan Llên Natur dan ofal Dominig Kervegant gan gynnwys map chwysigod môr  
<https://www.mapiaullennatur.net/>
- Trosglwyddo cofnodion o ddyddiadur John Henry Hughes, Botwnnog i'r Tywyddiadur a derbyn dyddiadur Owen Edwards, Benmorfa.  
<https://www.lennatur.cymru/Y-Tywyddiadur>

Dywedodd y Cadeirydd fod Llên Natur yn adnodd ardderchog a thynnodd sylw bod papur bro yr Odyn wedi canmol y prosiect yn ddiweddar. Diolchodd i Duncan am ei waith.

#### ii) Y Trysorydd

Cyfeiriodd y Trysorydd at y fantolen a ddsbarthwyd drwy e-bost. Dangoswyd incwm o £316.61 rhwng 16.11.2020 a 13.02.2021. Gwariant yn ystod y cyfnod oedd £126.59. Bu £45,624.86 mewn llaw gan gynnwys £17,353.12 yn nau fond Banc Hodge. Rhestrwyd gwerth tua £4,868 o eitemau y disgwyliid eu talu yn y dyfodol agos, gan gynnwys costau cynhyrchu'r Cylchlythyr a'r Naturiaethwr, adnewyddu'r polisi yswiriant a llogi Festri'r Noddfa i dri chyfarfod y PG.

Diolchodd y Cadeirydd i'r Trysorydd am ei gwaith.

#### iii) Yr Ysgrifennydd Aelodaeth

Dywedodd yr Ysgrifennydd Aelodaeth fod rhifyn diweddarach y Cylchlythyr wedi sbarduno nifer o aelodau i gysylltu ynglŷn â thalu'r tanysgrifiad. Tynnwyd sylw bod angen gwaith papur bellach wrth anfon copiâu i aelodau yn Ewrop oherwydd gadael y UE. Cyfeiriodd Rob at ei awgrymiadau ynglŷn â denu dysgwyr, a ddsbarthwyd drwy e-bost, gan dynnu sylw yn enwedig at ei fwriad o gysylltu â Mentrau Iaith ac awgrymu rhoi cymorth i ddysgwyr gwrrd mewn grwpiau anffurfiol.

Diolchodd y Cadeirydd i'r Ysgrifennydd Aelodaeth am ei frwdfrydedd.

#### iv) Trefnyddion Gweithgareddau

Dywedodd Eirian Davies fod ganddo nifer o deithiau dichonol mewn cof ond byddai rhai trafod dyddiadau gyda'r arweinyddion pe gyhoeddid diwedd y cyfyngiadau presennol.

Mynegodd Iwan Roberts y farn na fyddai galw am gyhoeddi rhaglen lawn yn y dyfodol agos ond credodd fod cyhoeddi manylion ar y wefan fesul mis yn gyfleus.

Dywedodd Hywel Madog Jones (Trefnydd dros dro Gwynedd a Môn) fod ganddo bedair taith yn barod ar gyfer diwedd y cyfnod clo.

Trafodwyd a ddylid ceisio cyhoeddi rhaglen lawn yng Nghylchlythyr mis Awst a phenderfynwyd gofyn i'r Trefnyddion gysylltu â'i gilydd a rhoi gwybod i'r PG yng nghyfarfod mis Mai. Cadarnhaodd y Golygydd y byddai rhaid derbyn y manylion erbyn canol mis Mehefin. Nodwyd y posibilrwydd o ohirio cyhoeddi'r Cylchlythyr tan fis Medi.

Diolchodd y Cadeirydd i'r tri Threfnydd am eu gwaith dan amgylchiadau anodd.

v) Golygydd y Cylchlythyr

Diolchodd y Golygydd i'r rhai a gyfrannodd eitemau i lenwi'r bwlch yn absenoldeb hanes teithiau. Tynnwyd sylw at waith cywrain Elgan Griffiths wrth gyfansoddi. Apeliwyd i aelodau gyfrannu lluniau a fyddai'n cydweddu â cherdd i'r clawr blaen. O ran barddoniaeth, esboniwyd bod hawlfraint yn para am 70 mlynedd ond gellid gofyn am ganiatâd i ddefnyddio cerddi mwy diweddar.

vi) Golygydd y Naturiaethwr

Dywedodd Golygydd y Naturiaethwr y byddai'n falch o gyhoeddi cyfraniadau gan ddysgwyr ac addawodd Rob anfon ymlaen erthyglau o'r Wennol (**pwynt gweithredu**).

Diolchodd y Cadeirydd i'r dau Olygydd am gynhyrchu cyhoeddiadau mor dda bob tro.

## 6. GOHEBIAETH

Dywedodd yr Ysgrifennydd iddo dderbyn llythyr gan Ganolfan Ymwelwyr Dyfi Ynys Las yn chwilio am rywun i roi cyngor ynglŷn â diweddarau labeli ar y cregyn yn eu harddangosfa. Awgrymwyd Twm Elias.

## 7. UNRHYW FATER ARALL

- i) Dywedodd yr Is-Gadeirydd iddo dderbyn galwad ffôn gan Ffiona Jones o "Byw yn Iach, Gwynedd" yn archwilio'r posibilrwydd o gynnwys gweithgareddau'r Gymdeithas yn y cynllun gyda'r nod o hyrwyddo ymarfer corff a chymdeithasu yn yr awyr agored. Dywedodd iddo amau y byddai gweithgareddau arferol y Gymdeithas yn addas ac awgrymwyd cynnal teithiau cerdded byrrach yng nghanol yr wythnos. Nodwyd y gallai rhai o'n haelodau groesawu ambell daith lai heriol. Trafodwyd gofyn am wirfoddolwyr i drefnu ac arwain teithiau er mwyn osgoi creu gwaith ychwanegol i'r Trefnyddion. Mynegwyd amheuan gan ychydig o aelodau'r PG ond tynnwyd sylw gan Dafydd Lewis bod y Comisiwn Elusennau'n cymeradwyo cydweithio gydag elusennau eraill. Cytunwyd y byddai'r Is-gadeirydd yn cysylltu â Ffiona Jones a gofyn am fwy o fanylion (**pwynt gweithredu**)
- ii) Gofynnwyd a ddylid cynnal y Gynhadledd yn mis Hydref 2021. Penderfynwyd cynnal trafodaeth ymhellach ym mis Mai.

## 8. DYDDIADAU CYFARFODYDD Y FLWYDDYN NESAF

Penderfynwyd cynnal cyfarfod Zoom ar 20<sup>fed</sup> Mai 2021 a gohirio penderfyniad ynglŷn â chyfrwng gweddill y cyfarfodydd yn 2021.

Wrth ddirwyn y cyfarfod i ben dywedodd y Cadeirydd y byddai'n edrych ymlaen at gwrdd ag aelodau o'r PG ar deithiau maes yn fuan.